RHESTR WIRIO SYNIADAU

THE BIG / Y SPOTACULAR MAWR WITH / GYDA Blue Peter

BRING & BUY SALE
FFAIR DEWCH A PHRYNWCH

1.
Dewis lleoliad

2.
Gwirfoddolwyr

3.
Trefnu'r pethau sydd eu hangen arnoch

4.

Hysbysebu

5.
Cyfryngau cymdeithasol

6.
Cyfraniadau

7.
Prosiectau ail-gylchu

8.
Eitemau Newydd

9.
Cacennau

10.
Mwynhau

11.
Anfon yr arian yr ydych wedi'i godi i Blant Mewn Angen

© BBC 2007 Reg. charity England & Wales no. 802052 and Scotland no. SC039557

RHESTR WIRIO SYNIADAU

1

Dewiswch leoliad a fydd yn addas ar gyfer y pethau fydd eu hangen arnoch, e.e. byrddau i'ch stondinau a thoiledau i'ch ymwelwyr.

2

Ceisiwch gael cymaint o wirfoddolwyr â phosibl. Bydd angen pobl i helpu cyn y digwyddiad gyda'r cynllunio ac i osod pethau, yn ystod y digwyddiad i helpu ar y stondinau ac ar ôl y digwyddiad i helpu tacluso. Gofynnwch i bobl sut hoffen nhw helpu, os oes unrhyw sgiliau neu wybodaeth arbennig y gallent gynnig a pheidiwch ag anghofio diolch iddyn nhw am roi eu hamser i helpu.

3

Gwnewch gynllun sy'n cynnwys yr holl bethau sydd angen eu gwneud ac erbyn pryd mae angen eu gwneud. Pryd fyddwch chi'n rhoi'ch posteri a hysbysebion i fyny? Pryd fyddwch chi'n casglu'r rhan fwyaf o'ch rhoddion? Pryd fyddwch chi'n gwneud cacennau neu eitemau eraill?

4

Gwnewch bosteri a phamffledi a'u rhoi nhw i fyny yn eich ardal leol gyda chaniatâd. Rhowch nhw i fyny mewn llefydd sy'n cael llawer o ymwelwyr, e.e. meddygfeydd, archfarchnadoedd, siopau lleol, siopau trin gwallt, clybiau chwaraeon, meithrinfeydd, grwpiau plant bach, cartrefi gofal ac ysgolion.

5

Rhowch eich digwyddiad ar gyfryngau cymdeithasol. Efallai y bydd angen oedolyn y gellir ymddiried ynddo gyda chyfrif i'ch helpu gyda hyn.

6

Casglwch gyfraniadau ar gyfer eich ffair. Sut bydd pobl yn cael eu cyfraniadau atoch? Ble bydd y cyfraniadau yn cael eu cadw cyn y ffair?

7

Gwnewch rai pethau eich hun i ysbrydoli'ch ymwelwyr ac i werthu. Gallwch wneud 'slime' gan ddefnyddio glud a thoddiant lens gyffwrdd neu gallwch dyfu planhigion i werthu. Edrychwch ar wefan Twinkl am fwy o syniadau crefft greadigol.

8

Prynwch bethau newydd i'w gwerthu. Gallwch brynu losin, te a choffi o'r siop talu a chario. Bydd angen i chi werthu nhw am bris sy'n sicrhau eich bod chi'n gwneud elw a thalu costau prynu a dal gwneud arian i'ch elusen ddewisedig.

9

Gwnewch gacennau i werthu. Bydd angen iddyn nhw fod yn ffres ac wed'u storio'n gywir felly byddwch chi ddim yn gallu eu coginio'n rhy bell ymlaen llaw. Efallai bydd rhai o'ch gwirfoddolwyr yn bobyddion gwych!

10

Mwynhewch ar y diwrnod! Gwelwch eich gwaith caled a threfniadau'n dod at ei gilydd fel digwyddiad codi arian gwych.

11

Cofiwch anfon yr arian yr ydych wedi'i godi i BBC Plant Mewn Angen. Gallwch wneud hyn **ar lein** neu drwy fynd i'r banc neu'r Swyddfa Bost.